**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD LLUN, 28 CHWEFROR 2022**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: E.V.Latham, L.Jones, A.R.Lockyer, C.Clement-Williams, D.Jones, M.Harvey, P.A.Rees a/ac P.D.Richards

**Swyddogion yn bresennol:**

N.Pearce, C.Griffiths, K.Jones, A.Jarrett a/ac J.Woodman-Ralph

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd E V Latham yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CROESO A GALW'R ENWAU**

Croesawodd y Cynghorydd E V Latham bawb i'r cyfarfod a galwyd yr enwau.

3. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau.

4. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaed datganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod gan yr aelod canlynol.

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd M.Harvey | Parthed: Eitemau rhif 5,6,7 a 9 ar yr agenda gan ei fod yn gweithio i Heddlu De Cymru ond teimlai nad oedd ei fudd yn |

rhagfarnol.

5. **CYNLLUN CORFFORAETHOL DRAFFT 2022-2027**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:

1.Argymell y Cynllun Corfforaethol ar gyfer y cyfnod 2022 - 2027;

2.Bydd y Prif Weithredwr yn cael awdurdod dirprwyedig, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd i wneud unrhyw newidiadau pellach sy'n angenrheidiol cyn cyhoeddi'r cynllun terfynol ac nad ydynt yn newid cynnwys y cynllun yn sylweddol.

3. Argymell y Cynllun Corfforaethol i'r cyngor i'w fabwysiadu.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

I sicrhau bod y cyngor yn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel y maent yn berthnasol â gweithgareddau cynllunio corfforaethol y cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith wedi iddynt gael eu hystyried yng nghyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2022.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r Cynllun a'r Rhaglen Newid Strategol drafft wedi cael ei lywio gan yr ymgyrch Dewch i Siarad a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2021 a mis Ionawr a mis Chwefror 2022 a digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu eraill fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

6. **CYLLIDEB REFENIW 2022/2023**

Diolchodd yr Aelodau i'r Prif Swyddog Cyllid a'r Tîm Cyllid am yr holl waith yr oeddent wedi'i wneud wrth baratoi a chwblhau'r adroddiadau sy'n cael eu hystyried heddiw.

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Cymeradwyo buddsoddiadau Cyllideb Refeniw a chynllun gwasanaeth y cyngor ar gyfer 2022/2023 fel y nodir yn Atodiad 1 a 2 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Bod y £2.8 miliwn o'r gronfa yswiriant wrth gefn i'w defnyddio i gyflawni nifer o fuddsoddiadau untro i gefnogi adferiad COVID-19 gan gynnwys recriwtio staff i gyflawni gwaith o gwmpas y cynllun dechrau gorau mewn bywyd.

3. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol priodol yn dilyn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, yr Aelod Cabinet perthnasol a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol:

    - Pennu ffïoedd a thaliadau (ar gyfer swyddogaethau gweithredol) ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/2023.

    - Gosod Ffioedd a Thaliadau (Gweithrediaeth) sy'n gymwys mewn unrhyw flwyddyn ariannol ddilynol a sydd, ym marn y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, angen ei osod cyn y flwyddyn ariannol am resymau gweithredol.

4. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol priodol yn dilyn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, y Dirprwy Arweinydd a Chadeirydd y Pwyllgor Anweithredol perthnasol i:

    - Bennu Ffïoedd a Thaliadau ar gyfer swyddogaethau (anweithredol) ar gyfer y flwyddyn 2022/2023.

    - Pennu ffïoedd a thaliadau (ar gyfer swyddogaethau anweithredol) sy'n berthnasol ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol ddilynol ac, ym marn y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y mae angen eu pennu cyn y flwyddyn ariannol honno am resymau gweithredol.

5. Mewn perthynas ag unrhyw amrywiad rhwng setliad terfynol Llywodraeth Cymru a'r setliad dros dro. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Swyddog Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, yr Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Gyllid, i wneud unrhyw ddiwygiad sy'n angenrheidiol drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn

cyffredinol, o ganlyniad i'r setliad terfynol sy'n ddyledus ar 2 Mawrth 2022.

6. Cymeradwyo'r cynnig o dim cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn 2022/2023 gyda lefelau treth yn cael eu rhewi ar werthoedd 2021/2022. Bydd y cynnig i gadw'r swm cyfatebol ar gyfer Band D Treth y Cyngor 2022/2023 Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn £1,660.02 yn cael ei argymell i'r cyngor i'w gymeradwyo.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

I sicrhau bod y cyngor yn cyflawni ei ofynion statudol i benderfynu ar y gyllideb ar gyfer 2022/2023. Darparu mecanwaith ar gyfer ymdrin ag unrhyw amrywiad rhwng setliad dros dro a therfynol Llywodraeth Cymru a chytuno ar drefniadau ar gyfer penderfynu ar Ffioedd a Thaliadau.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl iddo gael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y cyngor yn ystod cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2022.

**Ymgynghoriad:**

Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng 5 Ionawr a 1 Chwefror 2022 fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

## 7. STRATEGAETH GYFALAF A RHAGLEN GYFALAF 2022/23 I 2024/25

**Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/2023 i 2024/25 fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

3. Cymeradwyo'r trefniadau dirprwyedig fel yr amlinellwyd ym mharagraff 12 o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

4. Argymell y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf 2022/23 i 2024/25 i'r cyngor i'w chymeradwyo'n derfynol.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Sicrhau bod Rhaglen Gyfalaf yr Awdurdod yn cael ei chymeradwyo yn unol
â chyfansoddiad y cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl iddo gael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y cyngor yn ystod cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2022.

8. **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB MISOL 2021/22 - YN ÔL DIWEDD MIS RHAGFYR 2021**

**Penderfyniadau:**

1.Bod cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â sefyllfa alldro'r gyllideb amcanol presennol yn cael ei nodi.

2.Cymeradwyo trosglwyddiadau'r gyllideb fel y nodir isod:

| **Cyf.** | **Maes Gwasanaeth** | **Trosglwyddo i £** | **Trosglwyddo O £** |
|---|---|---|---|
| GCI | Gwaith Cymdeithasol Gofal Cymunedol | 416,140 | |
| GCI | Tîm Adnoddau Cymunedol | | 473,080 |
| GCI | Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol | 56,940 | |
| **Cyfanswm** | | **473,080** | **473,080** |

3. Cymeradwyo trosglwyddiadau'r gronfa wrth gefn fel y nodir isod:

| **Cyf.** | **Gwerth i / (o) £** | **Wrth gefn** | **Maes Gwasanaeth** | **Rheswm** |
|---|---|---|---|---|
| AHDGO | (38,000) | Canolfan Ddarganfod Margam | Canolfan Ddarganfod Margam | Cytunwyd ar ostyngiad ar gyfer yr arian a dalwyd i gronfa adnewyddu gan y Cyngor Astudio Maes oherwydd COVID-19 |

| **Cyf.** | **Gwerth i / (o) £** | **Wrth gefn** | **Maes Gwasanaeth** | **Rheswm** |
|---|---|---|---|---|
| AHDGO | 38,000 | Cludiant o'r cartref i'r ysgol | Cludiant o'r cartref i'r ysgol | I gyfrif am un diwrnod ysgol yn llai yn 2021/22 oherwydd y Pasg. Bydd diwrnod ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf |
| AHDGO | 66,000 | Cynllun wrth gefn corfforaethol | Diogelwch cymunedol | Nid oes angen cyfraniad arian wrth gefn gwreiddiol yn ystod y flwyddyn oherwydd arbedion |
| AHDGO | 393,000 | Gwarchodfa Anghenion Dysgu Ychwanegol *Newydd | Strategaeth cefnogi ymddygiad | Derbynnir arian grant ychwanegol a chaiff ei ddefnyddio i wrthbwyso gwariant presennol |
| AHDGO | 328,000 | Gwarchodfa Anghenion Dysgu Ychwanegol * Newydd | Lleoliadau y tu allan i'r sir | Oedi wrth leoli plant oherwydd COVID-19 |
| GACh | 23,000 | Cydraddoli corfforaethol | Gwasanaethau Cyfreithiol | Ariannu gwariant y Fargen Ddinesig yn 2022/23 |
| GACh | 28,000 | Meithrin gallu | Craffu | Canslo'r warchodfa wreiddiol - nid oes ei hangen mwyach |
| GACh | 13,000 | Meithrin gallu | Strategaeth Gorfforaethol | Canslo'r warchodfa wreiddiol - nid oes ei hangen mwyach |
| GACh | 315,000 | Adnewyddu TGCh | TGCh | Canslo'r warchodfa wreiddiol - nid oes ei hangen mwyach |
| GCI | 840,000 | Trawsnewid | Gofal Preswyl - Darpariaeth Allanol | Ariannu gwaith adfer o COVID-19 yn 2022/23 |
| GCI | 720,000 | Trawsnewid | Gofal Cartref | I ariannu cost newid i dechnoleg gynorthwyol |

| **Cyf.** | **Gwerth i / (o) £** | **Wrth gefn** | **Maes Gwasanaeth** | **Rheswm** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ddigidol |
| AMG | 260,000 | Cynllun wrth gefn corfforaethol | Datblygiad economaidd | Nid oes angen grantiau ychwanegol i fusnesau mwyach yn 2021/22 |
| AMG | (100,000) | Cynllun wrth gefn corfforaethol | Uned Ewropeaidd | Bydd angen £150k o'r £250k wrth gefn wreiddiol yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod ar gyfer ceisiadau codi'r gwastad |
| AMG | 250,000 | Gwarchodfa Dare | Rheoli asedau | Nid oes angen cais am gyfraniad gwreiddiol tan 22/23 |
| AMG | 50,000 | Cydraddoli amgylcheddol | Rheoli Llygredd | Arian y mae ei angen yn 2022/23 i ariannu swydd dadansoddi bwyd dros dro |
| AMG | 50,000 | Bargen Ddinesig | Bargen Ddinesig | Oedi mewn gwariant o ganlyniad i'r pandemig |
| AMG | (200,000) | Gwastraff Corfforaethol | Gwaredu gwastraff | Costau ôl-ofal yn Giants Grave |
| AMG | 38,000 | Adfer asedau | Iechyd yr Amgylchedd Cyffredinol | Nid oes angen cyllid ar gyfer swydd untro |
| AMG | 17,000 | Cydraddoli | Amddiffyn yr Arfordir | Ariannu cynllun yng Nghei Jersey yn 2022/23 |
| AMG | 162,000 | Cydraddoli | Rheoli Datblygu Cynllunio | Cynllun yng Nghei Jersey i'w gynnal yn 2022/23 |
| AMG | 130,000 | Cludiant | Cymorth Teithio | Oedi prynu cerbydau tan 2022/23 |
| AMG | 60,000 | Cludiant | Uned cludiant gwasanaethau cymunedol | Derbyniwyd cyllid grant ychwanegol |
| AMG | 85,000 | Metal Box | Ystadau | Ariennir gwaith parhaus gan grant cyfalaf LlC |
| AMG | 140,000 | Metal Box | Tir Anweithredol | Ariennir gwaith parhaus gan grant cyfalaf |

| Cyf. | Gwerth i / (o) £ | Wrth gefn | Maes Gwasanaeth | Rheswm |
|---|---|---|---|---|
| | | | | LlC |
| AMG | 388,000 | Metal Box | Metal Box | Ariennir gwaith parhaus gan grant cyfalaf LlC |
| AMG | 63,000 | Metal Box | Rheoli asedau | Ariennir gwaith parhaus gan grant cyfalaf LlC |
| AMG | 100,000 | Canolfan Arloesedd Bae Baglan | Canolfan Arloesedd Bae Baglan | Tanwariant oherwydd hawliadau caledi yn parhau ar gyfer 21/22 |
| AMG | 25,000 | Cynllun Datblygu Lleol | Polisi | Nid oes angen arian yn 2021/22 |
| **CYFANSWM** | **4.244m** | | | |

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Diweddaru cyllideb y cyngor ar gyfer trosglwyddiadau a symudiadau o ran arian wrth gefn, yn unol â chyfansoddiad y cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Gwener, 4 Mawrth 2022. Ni dderbyniwyd unrhyw alwadau i mewn.

9. **MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF 2021/22**

**Penderfyniadau:**

1.Bod y gyllideb ddiweddaredig ar gyfer 2021/2022, sef cyfanswm o £78,834m, gan gynnwys y newidiadau i'r gyllideb fel y'u nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael ei chyflwyno i'r cyngor i'w chymeradwyo.

2.Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â gwariant ar 31 Rhagfyr 2021.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

I gydymffurfio â chyfansoddiad y cyngor mewn perthynas â throsglwyddo'r gyllideb, ailbroffilio rhwng blynyddoedd ariannol a diweddaru amcanestyniadau cyllideb y cyngor ar gyfer 2021/2022.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl iddo gael ei ystyried gan y cyngor yn ystod cyfarfod a gynhelir ar 1 Mawrth 2022

10. **STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS, STRATEGAETH BUDDSODDI FLYNYDDOL A PHOLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW**

**Penderfyniad:**

Argymell y strategaethau a pholisïau canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
- Strategaeth Buddsoddi Flynyddol
- Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw
- Dangosyddion Darbodus

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

I sicrhau bod Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Buddsoddi Flynyddol, Strategaeth Gyfalaf a Pholisi Darpariaeth Isafswm Refeniw yr awdurdod yn cael eu cymeradwyo fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chôd Darbodus Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (2017).

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl iddo gael ei benderfynu gan y cyngor yn ystod cyfarfod a gynhelir ar 1 Mawrth 2021.

11. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r mater sydd wedi'i gynnwys yng Nghofnod Rhif 12 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi hyn yn y

cyfarfod heddiw fel eitem frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Rheswm:**

Oherwydd yr elfen amser.

## 12. CYNNIG I GREU CYNLLUN CYMORTH CALEDI WEDI'I DARGEDU

**Penderfyniadau:**

1.Bydd £2m o danwariant cyllideb presennol 2021/2022 yn cael ei roi mewn cronfa wrth gefn cymorth caledi.

2.Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn datblygu cynllun i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i drigolion y Fwrdeistref Sirol sy'n cael eu heffeithio gwaethaf gan yr argyfwng costau byw.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

I ddarparu cynllun cymorth i drigolion y Fwrdeistref Sirol sy'n dioddef caledi ariannol.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar unwaith ac fe'i cefnogwyd gan Gadeirydd cyfarfod y pwyllgor craffu a gynhaliwyd cyn dechrau'r cyfarfod hwn.

**CADEIRYDD**